YSGOL BRYNREFAIL

CYNLLUN ANWYTHO BLWYDDYN 12 (Cymhwyster Bagloriaeth Cymru)

Elliw Ellis Davies sydd, gyda'i chwaer Dwynwen, yn rhedeg Cwmni Atom P.R. sydd wedi ei leoli yn Doc Fictoria Caernarfon. Mae'r ddwy chwaer yn disgrifio ATOM 'er yn gwmni bychan, mae wedi ei ffurfio'n berffaith ac yn gyfrwng cyfathrebu dwyieithog'. Maent yn gweithio gyda dros 50 o gwsmeriaid ym Mhrydain a thu hwnt.

Mae Elliw yn enghraifft berffaith o berson ifanc lleol sydd wedi mentro a llwyddo i greu cwmni llwyddiannus yn yr ardal.

Mae 'Menter' yn un o'r agweddau a roddir sylw iddi o fewn y Fagloriaeth a chynhaliwyd nifer o sesiynau yn ystod y cyfnod anwytho i roi rhagflas o rai o agweddau o'r cymhwyster.